



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mwy Nag Ailgylchu

Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti: **Fersiwn hawdd ei deall**

Cafodd y ddogfen hon ei llunio gan Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

Gwefannau:

llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol

myrecyclingwales.org.uk/cy

walesrecycles.org.uk/cy/cartref-cymraeg

Twitter: @CymruAilgylchu

Pam rydym yn cymryd camau



Ar draws y byd mae pobl yn prynu pethau fel bwyd, dillad, dodrefn a ffonau symudol.

Ar ôl i ni ddefnyddio'r eitemau hyn rydym yn aml yn eu taflu i ffwrdd.

Mae ynni a deunyddiau yn cael eu defnyddio ar gyfer creu'r pethau hyn.



Yn aml mae angen llosgi glo, olew neu nwy i greu ynni. Mae hyn yn creu carbon deuocsid.

Nwy yw carbon deuocsid sy'n cynhesu'r Ddaear.

Wrth i'r Ddaear gynhesu mae mwy o stormydd a llifogydd yn digwydd.



Yr enw ar hyn yw'r newid yn yr hinsawdd.

Gall defnyddio deunyddiau newydd, fel pren neu garreg, hefyd ddifrodi coedwigoedd a mynyddoedd ble mae anifeiliaid yn byw a ble mae planhigion yn tyfu.

Beth yw Economi Gylchol?

Yn hytrach na thaflu ein pethau i ffwrdd, beth am wneud y canlynol:

**AILDDEFNYDDIO
TRWSIO
AILGYLCHU**

- Eu rhoi i rywun arall. Yr enw ar hyn yw ailddefnyddio.
- Eu trwsio. Yr enw ar hyn yw atgyweirio.
- Eu tynnu'n ddarnau er mwyn creu rhywbeth newydd. Yr enw ar hyn yw ailgylchu.

Trwy wneud hyn gallwn sicrhau bod deunyddiau'n parhau i gael eu defnyddio a gallwn osgoi gwastraffu pethau.

Yr enw ar hyn yw Economi Gylchol.

Rydym yn awyddus i gymryd camau yng Nghymru yn awr fel y gallwn gyflawni'r canlynol erbyn 2050:

**DIM
GWASTRAFF**



1. Ailddefnyddio, atgyweirio neu ailgylchu popeth. Bydd hyn yn cyflawni 'Cymru ddiwasttraff'.
2. Ystyried yn ofalus pa ddeunyddiau rydym yn eu defnyddio.
3. Lleihau faint o garbon deuocsid rydym yn ei ryddhau i'r aer.



Rydym wedi gweithio'n galed ar draws Cymru er mwyn ailgylchu mwy.

Nid oeddem yn ailgylchu llawer iawn ugain mlynedd yn ôl. Erbyn hyn rydym yn ailgylchu bron i ddwy ran o dair o'n gwastraff.

Golyga hyn mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, yr ail yn Ewrop a'r drydedd yn y byd ym maes ailgylchu.



Mae gennym bellach fwy o finiau ailgylchu, lorïau, peiriannau sortio a ffatrioedd sy'n ein helpu i ailgylchu.

Pa gamau y gallwn eu cymryd?

Bydd angen i bob un ohonom barhau i gydweithio er mwyn datblygu economi gylchol.

Dyma rai o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd:



- Helpu cymunedau i rannu eitemau nad ydym yn eu defnyddio bob dydd, fel offer.
- Cefnogi busnesau ac elusennau sy'n anelu at leihau gwastraff, fel siop ail-lenwi.



- Prynu pethau sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu.
- Cefnogi busnesau i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu wrth iddynt greu'r pethau sydd eu hangen arnom, fel desgiau.
- Cefnogi gwaith dylunio cynhyrchion y mae'n haws eu hatgyweirio a'u hailgylchu.
- Cydweithio â phobl a busnesau er mwyn annog pawb i aildefnyddio eitemau fel dodrefn.
- Gofyn i bobl ystyried yn ofalus pa fwydydd maent yn eu bwyta a gwastraffu llai.
- Creu rheolau newydd fel bod deunyddiau a all gael eu hailgylchu yn cael eu casglu o bob adeilad yng Nghymru, fel siopau ac ysgolion.
- Cefnogi pobl i ailgylchu cymaint â phosibl a pheidio â thaflu sbwriel.
- Ailgylchu mwy o bethau fel matrysau a charpedi.



- Defnyddio lorïau trydan er mwyn casglu gwastraff nad ydynt yn gollwng carbon deuocsid i'r aer.
- Rhoi mwy o wybodaeth i bobl Cymru am ailgylchu fel y gallwn oll ailgylchu mwy.

Beth sy'n digwydd nesaf?

AILDDEFNYDDIO TRWSIO AILGYLCHU



Rydym yn awyddus i sicrhau bod Cymru'n wlad ble mae pawb yn ystyried y deunyddiau rydym a ble rydym yn ailddefnyddio, yn atygyweirio ac yn ailgylchu llawer iawn mwy.

Rydym wedi trafod hyn â llawer o bobl ar draws Cymru ac rydym wedi gwrandao ar eu syniadau.

Byddwn yn rhannu gyda chi sut rydym yn cyflawni hyn. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan neu gallwch anfon e-bost atom:

MwyNagAilgylchu@llyw.cymru

llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu